

# CROESI'R BERWYN

(Daeth y Golygydd o hyd i gopi imi o'r Clustnodydd yn ddiweddar, ac er mai chwilio am gopi o lyfr nodau clustiau Lewis Jones, brawd i Nain fy Nhad, yr oeddwn, bu trafod Clustnodydd Hugh Ellis efo nhad yn ysgogiad iddo fynd ati i ysgrifennu unwaith eto am eu hanes fel teulu yn symud i'w cynefin ar y Berwyn).

**R**oedd nifer o ffermydd plwyf Llangwm â chynefin pori defaid yn yr haf ar y Berwyn, tra bo rhai â chynefin yn Maen Gwynedd, Buarth y Re, Cwm Geifr a Chwm Llawennog ac eraill am y gefn ochr Llandrillo i'r Berwyn. Ym Mlaen Cwm Llawennog roedd defaid Tai Mawr, fy nghartref, a Llwyn Dedwydd, fferm arall yng Nghwm Main, yn cyd-bori ar gefn deheuol Cadair Fronwen. Am dymor yr haf yn unig y byddent ar y Berwyn.

Byddent yn mynd â'r hesbinod tua wythnos olaf Ebrill a'r defaid a'r ŵyn wythnos gyntaf mis Mai. Dibynnai hyn i raddau ar y tywydd; roedd rhaid i'r mynydd fod yn weddol glir o eira.

Weithiau roedd rhaid aros rhai dyddiau. Cyd-deithiai'r ddwy fferm, Llwyn Dedwydd a Thai Mawr, wedi iddynt gyfarfod yn Llawrybetws hyd nes cyfarfod â bugail Blaen Cwm ar gwr y Berwyn. Yna fe fyddai'r daith drosodd nes y deuai'n amser cyneifio.

I ni'r hogiau roedd croesi'r Berwyn yn dipyn o ramant er y blinder. Dyddiau olaf Mehefin oedd yr adeg i fynd i gneifio. Byddai'r gwragedd wedi trefnu'r bwyd am y ddau ddiwrnod yn ddarn helaeth o ham a choes llwdwn a digon o fara a menynd a phopeth angenrheidiol am ddau ddiwrnod. Roedd yn bwysig ei bacio'n ofalus mewn cistiau gan mai mewn trol y byddai'n cael ei gludo, a'r ffyrdd y pryd hynny'n glonciog a thyllog.

## Codi yn y bore bach!

Roedd rhaid cychwyn ben bore tua phedwar o'r gloch gyda'r drol a'r wedd yn cludo'r bwyd, y parclothau gwlan a'r gwelleifiau a'r llinynnau i rwymo traed y defaid wrth eu cneifio. Bryd hynny byddem yn cwrdd yng Nghynwyd, yn bymtheng i ddeunaw ohonom i gyd o'r ddwy fferm, yna'n parêdio trwy'r pentref tua chwech y bore. Gwelem sawl cyrten llofft yn symud wrth i rywrai giledrych a sbecian o glywed sŵn yr esgidiau trymion.



Stablau Cwm Llawennog



Blaen Cwm Llawennog

Roedd y ffordd yn troi o'r pentref yn y pen ucha ac yn arwain at nifer o dyddynnod fel Coed Talwrn, Pant y Clai a Hafod Bleddyn, a'r ddau Gefnfaes. Prin fod neb wedi codi ond fe gaem ein cyfarch gan y cŵn yn ffyrnig. Wedi pasio Rhos Maerdy caem ffordd las i'w cherdded a ninnau ar godiad o dir lle gwelem gopaon Bryniau Iâl, Moelfamau, Yr Aran a'r Wyddfa, yn y pellter, a chrib y Berwyn o'n blaenau.

## Dilyn llwybr drwy'r grug

Wedi cerdded am ddwy awr byddem wedi dod at gorllannau White, fel y cyfeiriem atynt. Yma y caem eistedd i gael haws o fara menynd a chaws a llond cledd llaw o ddwr o'r nant, gan mor oer oedd. Roedd hi'n ddeddf gan fy nhad na chaem yfed dim mwy na hynny. Yma y byddem yn gwahanu i groesi'r mynydd am Gwm Llawennog. Byddem ni'r cerddwyr yn dilyn rhyw fath o lwybr trwy'r grug a'r mawnogydd ac yna i lawr ochr serth hyd nes dod i flaen y cwm wrth droed Cadair Fronwen.

Roedd taith y drol awr a hanner yn hirach a rhaid oedd gofalu rhag troi drosodd ar y rhowtia. Fe fyddai un ohonom ni'r hogiau yn cadw cwmni i'r wagner. Cawsom gryn helbul un tro. Roedd rhan o bont wedi mynd gyda'r lli. Er hynny, llwyddwyd wedi hir drafael a dod i olwg ffermydd o'r enw Swch Cae Rhiw, ac yn fuan at bentref Llywarch a fferm y Pentre, ac yna ymlaen ar ôl sgwrs fach â'r ffermwr am flaen y cwm.

Dwy filltir eto trwy fuarth ffermydd Cwm Bach a Chwm Canol. Byddai un digwyddiad blynyddol sef gwraig un o'r tyddynnod, a oedd ryw hanner canllath oddi ar y

ffordd, yn ein croesawu a gofyn yn ddi-ffael beth fyddai pris y gwlan eleni.

## Dechrau cneifio ar ôl cinio

Braf oedd cyrraedd pen y daith a dadgerio'r wedd a dadlwytho. Roedd y criw cerdded wedi bod yn didoli'r ddwy fuches a'u gwneud yn barod yn y corllannau i ddechrau cneifio ar ôl cael cinio. Roeddent yn barod amdani wedi'r holl daith. Roedd yn rhyddhad i'r wedd gael gwared o'r harnais a chael ei gollwng i gae dan y tŷ i bori, er mor llwm oedd hwnnw.

Yn yr ysgubor roedd criw Tai Mawr yn cneifio - lle eithaf hwylus â chorlan yn gyfleus dan yr un to. Fy ngwaith i'r tro cyntaf oedd dal y defaid a'u cario i'r cneifwyr. Byddai un arall yn gofalu am y marcio ac am drwsio briwiau pan fyddai ambell i gneifiwr wedi torri'r croen.

Byddai John fy mrawd yn gofalu am y bwyd am ran o'r amser efo Mrs Morris a'r forwyn. Cyn mynd i'r tŷ am ginio byddem yn cael mynd at ddŵr y pistyll i olchi'n dwylo.

## Traed dolurus ar ôl y daith

Rhyfedd iawn fod cymaint yn dymuno dod gyda'r criw er garwed y daith. Cofiaf am un yn arbennig a oedd wedi erfyn am gael dod gyda chriw'r Llwyn. Hen gyfaill od oedd Huw Ellis ac fe gafodd ddod, ond erbyn cyrraedd pen y Berwyn roedd ei draed mor ddolurus bron na fedrai gerdded. Ond druan ohono erbyn trannoeth, wedi iddo gerdded yn ôl ac ymlaen i ddal y defaid, bron na fedrai roi ei draed ar lawr. Pan aethom i olchi'n dwylo cyn mynd am ein pryd diwethaf cyn troi am adref, dyna'r lle'r roedd Huw Ellis yn llafar wylo ac yn dal ei ddwylo i fyny gan ddweud, "Ffarwel iti, bistyll bach, ffarwel iti. Weli di mohono i eto tase gwlan y defaid yma'n tyfu i'r nefoedd. Ffarwel iti, bistyll bach."

Yng nghanol y llwyth gwlan y cafodd Huw druan fynd adref!

W. Hughes-Jones, Y Bala